

Telerau Busnes

Cwmpas y gwasanaeth

Mae CBAC yn un o brif gyrff dyfarnu'r DU sydd wedi ymrwymo i ddarparu cymwysterau a fydd yn galluogi dysgwyr o bob oed i gyrraedd eu potensial yn llawn. Cynigiwn amrywiaeth eang o gymwysterau sy'n cydnabod cyrhaeddiad ac yn sicrhau bod gan bobl y wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen arnyn nhw yn awr ac yn y dyfodol. CBAC yw prif gorff dyfarnu Cymru, ac rydym yn darparu cymwysterau dwyieithog dibynadwy, cefnogaeth arbenigol syml, ac asesiadau dibynadwy i ysgolion a cholegau ledled y wlad.

Gwasanaeth i gwsmeriaid

Bwriadwn ddarparu gwasanaethau arholiadau sy'n effeithlon, wedi'u rheoli'n dda ac yn gost-effeithiol. Rydym am ymateb i'n cwsmeriaid, cydymffurfio â gofynion y rheoleiddwyr, a gwerthuso'n barhaus er mwyn gwella ansawdd ein gwasanaethau. Bwriadwn hefyd weithredu polisi dwyieithog cyflawn.

Rheoliadau a pholisiau

Ein rheoleiddwyr yw [Ofqual](#) (yn Lloegr), [Cymwysterau Cymru](#), a [CCEA](#) (yng Ngogledd Iwerddon).

Mae'r CGC yn cynrychioli wyth Corff Dyfarnu. Ar ran pump o'r rhain (CBAC, AQA, CCEA, Pearson ac OCR) mae'r CGC yn cyhoeddi rheoliadau cyffredinol ar gyfer ysgolion, colegau a chyrff addysgol hyfforddi eraill sy'n ganolfannau ar gyfer arholi ac asesu. Mae gwefan gyhoeddus CBAC yn cynnwys cyswllt i'r dogfennau CGC hyn dan [Dogfennau'r CGC](#) ynghyd â'n polisiau penodol i'r corff ei hun ar ein [tudalen polisiau](#).

Defnyddio logos CBAC/EDUQAS

Mae CBAC yn nod masnach cofrestredig. Nid yw'r ffaith fod canolfan wedi'i chymeradwyo yn golygu bod ganddi hawl awtomatig i nodi neu awgrymu ein cymeradwyaeth mewn deunydd cyhoeddedig neu ar-lein. Rhaid gofyn am ganiatâd CBAC i ddefnyddio ein logo.

Hawlfraint

Gweler [polisi cyhoeddiadau CBAC](#) sy'n berthnasol i ddeunyddiau a gyhoeddir ar ffurf bapur ac yn electronig.

Ffioedd

Gweler ein gwybodaeth gyfredol ynghylch [ffioedd yma](#).

Hawl CBAC i wrthod cymeradwyo neu dynnu statws canolfan yn ôl

Cedwir yr hawl gan CBAC i dynnu'n ôl neu i wrthod cymeradwyo am y rhesymau canlynol:

- methiant i dalu ein hanfonebau'n brydlon fel y nodir yn ein llyfrynnau Ffioedd Cofrestru
- methiant i gofrestru ymgeiswyr am gyfnod o ddwy flynedd
- methiant i gydymffurfio â gofynion CBAC/EDUQAS neu CGC
- methiant i gydweithredu a darparu gwybodaeth y bydd CBAC yn gwneud cais amdani
- gweithredu mewn ffordd a allai ddifrodi enw da CBAC yn ein barn ni
- pryder ynghylch cynnal uniondeb CBAC a'i gymwysterau neu'r system arholiadau ac asesu
- fel sancsiwn camymddwyn
- I gael gwybod mwy, gweler ein dogfen [Amodau Cyffredinol i Ganolfannau CBAC](#) a gwybodaeth ar [Wefan Ddiogel CBAC](#)

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Rydym wir yn cymryd ein cyfrifoldebau preifatrwydd a diogelu data o ddifrif; bydd ein gwefan yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddiweddariadau i'n [hysbysiad preifatrwydd](#), sy'n esbonio sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Os bydd angen adrodd cais gwrthrych am wybodaeth GDPR ar fyfyrwr, yna dylent lenwi [ffurflen Cais am Hawl i Weld Data Personol](#). Dylent gyfeirio at y [Cwestiynau Cyffredin](#) hyn wrth wneud hynny. Nid dogfen swyddogol yw gwybodaeth am ganlyniadau a gyhoeddir mewn ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth ac ni fydd cyflogwyr, colegau na phrifysgolion yn ei derbyn fel arfer fel tystiolaeth o'ch canlyniadau am gymhwyster.

Ymwadiad atebolrwydd

Nid yw CBAC yn gyfrifol am gynnwys safleoedd allanol ac nid yw'n gwneud unrhyw gynrychioliadau na gwarantau o ran natur y cynnwys na chydymffurfiaeth safleoedd o'r fath ag unrhyw ofynion cyfreithiol, rheoleiddiol neu ofynion eraill.

Nid yw CBAC yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled elw, colled busnes na chyfle busnes, colled ewyllys da nac enw da, ymyriad busnes, colled neu lygru rhaglenni neu ddata nac unrhyw fath o golled anuniongyrchol neu ganlyniadol o gwbl sy'n deillio o roi mynediad i chi i'r wefan (gwefannau) a/neu unrhyw ddeunyddiau CBAC/EDUQAS a'ch defnydd ohonyn nhw.

Ni fydd CBAC yn atebol o gwbl am unrhyw golledion neu ddifrod sy'n deillio o, neu mewn cysylltiad ag unrhyw ddefnydd o'r wefan (gwefannau) a/neu ddeunyddiau CBAC/EDUQAS heb awdurdod.

Ni roddir unrhyw sicrwydd nad oes firysau cyfrifiadur ar dudalennau'r gwefannau, er bod CBAC yn cymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw haint o'r fath.

Bydd CBAC yn gwneud popeth rhesymol i ddilysu cywirdeb unrhyw wybodaeth ar y gwefannau a/neu mewn unrhyw ddeunyddiau CBAC. Nid yw fodd bynnag yn cyflwyno unrhyw achos neu warant

o unrhyw fath, wedi'i fynegi neu ei awgrymu, statudol, neu fel arall ynghylch cynnwys, perthnasedd, neu fanwl gywirdeb y gwefannau neu ddeunyddiau CBAC.

Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gwefannau'n weithredol ac yn rhedeg yn esmwyth, oherwydd natur y rhyngwyd a'r dechnoleg dan sylw, nid yw CBAC yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb os nad yw gwefan ar gael dros dro oherwydd materion technegol (neu fel arall) ac ni fydd yn atebol am hynny gan fod materion o'r fath y tu hwnt i'w reolaeth. Nid yw ychwaith yn atebol am unrhyw ganlyniad defnyddio neu fynediad at, neu anallu i ddefnyddio neu gael mynediad at wefannau o gwbl.

Nid oes unrhyw beth yn y telerau ac amodau hyn yn ceisio eithrio na chyfyngu o gwbl ar atebolrwydd posibl CBAC:

- am unrhyw farwolaeth neu anaf personol sydd wedi'i achosi oherwydd esgeuluster CBAC.
- am dwyll neu gamliwio twyllodrus.
- lle rydych chi'n gweithredu fel defnyddiwr er mwyn effeithio'n andwyol ar eich hawliau statudol fel defnyddiwr; neu
- am unrhyw fater y byddai'n anghyfreithlon i CBAC eithrio, neu geisio eithrio, ei atebolrwydd.

Indemniad

Rydych chi'n cytuno i indemnio'n llawn ac i barhau i indemnio CBAC rhag ac yn erbyn unrhyw gostau, hawliadau, gofynion, treuliau, a rhwymedigaethau y bydd CBAC yn eu dioddef sy'n deillio o'ch mynediad a/neu ddefnydd o wefannau neu ddeunyddiau CBAC, neu sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â hynny gan dorri'r telerau ac amodau hyn. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw fynediad a/neu ddefnydd o'r fath gan unrhyw berson (gan gynnwys, heb gyfyngiad, defnyddiwr) yr ydych chi wedi'i awdurdodi a/neu sy'n eich cynrychioli chi.

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae CBAC yn cadw'r hawl i drosglwyddo neu neilltuo pob un neu unrhyw hawliau, dyletswyddau a chyfrifoldebau sydd ganddo a nodir yn y Telerau ac Amodau i unrhyw barti arall.

Ni fydd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 yn berthnasol i'r Telerau ac Amodau hyn.